



Ein cyf MA-L/JM/0664/19

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid

13 Medi 2019

Annwyl Llŷr,

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyllid am y gwaith craffu y maent wedi'i wneud mewn perthynas â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 2 Awst 2019.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. Ystyriwyd y Bil gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod Cyfnod 1 hefyd a gwnaethant argymhellion ynglŷn â'i gynnwys. Rwyf wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng Adroddiadau'r tri Phwyllgor, ond yn anochel cafwyd achlysuron pan oedd yn rhaid i mi gytuno ag un ochr yn hytrach na'r llall.

Nid yw wedi bod yn bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor Cyllid yn llawn. Fodd bynnag, rwyf wedi rhoi'r egwyddorion a'r rhesymeg ategol ar waith cyn belled ag y bo modd.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Cynulliad.

Yn Gywir

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A: Ymateb i Gasgliadau ac Argymhellion Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid

Casgliad 1

Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi argymhell y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth ariannol. Os ceir newidiadau sylweddol i'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, gall y Pwyllgor ystyried y newidiadau hynny'n fanylach.

Nodaf gasgliad y Pwyllgor.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, gan y bydd yr ymgyrch hon yn rhan annatod o'r broses o weithredu'r Bil, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai fod dyletswydd ar wyneb y Bil i gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth gyhoeddus.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n cynnig cyflwyno diwygiad i roi'r argymhelliad hwn ar waith. Rwyf eisoes wedi addo i'r Pwyllgor hwn yn ystod ein sesiwn gyntaf y byddaf yn codi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith.

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, rwyf wedi cymeradwyo ymgyrch ddwys, a fyddai'n costio tua £2.2 miliwn dros tua chwe blynedd. Mae hyn yn cynnwys gwaith sylweddol i godi ymwybyddiaeth rhwng cael Cydsyniad Brenhinol a chychwyn y Bil, er mwyn codi cymaint o ymwybyddiaeth â phosibl cyn i'r gyfraith ddod i rym. Byddai'r ymgyrch hon yn parhau am tua phedair blynedd ar ôl cychwyn y Bil, er mwyn cynnal lefel uchel o ymwybyddiaeth.

Nodaf fod argymhelliad hefyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â dyletswydd i godi ymwybyddiaeth.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion pellach am ei hymgyrch codi ymwybyddiaeth. Yn benodol, sut y mae'n bwriadu cyrraedd yr unigolion perthnasol.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyhoeddi rhagor o fanylion ein cynlluniau cyfathrebu. Mae'r cynlluniau ar gyfer yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi parhau i ddatblygu ers i'r Memorandwm Esboniadol gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2019. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau hynny drwy adolygu'r Memorandwm Esboniadol ar ddiwedd Cyfnod 2.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod canlyniad yr ymarfer mapio a gynhelir gan y Grŵp Gweithredu yn cael ei gynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2.

Rwy'n **derbyn egwyddor** yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn fwy na pharod i rannu casgliadau'r broses o fapio'r cymorth rhianta â'r Pwyllgor maes o law.

Rydym yn rhagweld y caiff y broses fapio ei chwblhau erbyn diwedd mis Medi 2019, ond bydd yn cymryd amser i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r canfyddiadau ac ystyried unrhyw oblygiadau posibl. Bydd aelodau'r Grŵp Cyngori Arbenigol ar Rianta yn ystyried y canfyddiadau pan fyddant yn cyfarfod ar 17 Hydref, a gofynnir iddynt, ar sail eu gwybodaeth a'u profiad, wneud argymhellion ar y camau nesaf. Pan fyddwn wedi ystyried yr argymhellion hyn, byddwn yn ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Bydd hyn y tu allan i amserlen eich argymhelliad.

Nodaf fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd wedi cynnwys argymhelliad mewn perthynas â hyn.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith o sefydlu'r gost sylfaenol ar gyfer cyfeirio achosion at y gwasanaethau cymdeithasol.

Casgliad 2. O ganlyniad i'r prinder gwybodaeth am atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol, nid yw'r Pwyllgor yn gallu dod i gasgliad ynghylch gwerth am arian yr agwedd hon ar weithredu'r Bil. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, fel y mae ar hyn o bryd, yn rhoi awgrym llawn i randdeiliaid, megis awdurdodau lleol, o'r adnoddau posibl y gall fod eu hangen ar y Bil.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn ac yn nodi casgliad y Pwyllgor.

Rwyf eisoes wedi blaenoriaethu hyn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda nifer bach o awdurdodau lleol i geisio cael gafael ar amcangyfrif o'r niferoedd presennol o atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol, yn seiliedig ar y fethodoleg a ddefnyddir gan yr heddlu. Caiff casgliad y gwaith hwn ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Mae cost unedol fesul atgyfeiriad at wasanaethau cymdeithasol, a gadarnhawyd mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol ac a ddadansoddwyd ar gyfer elfennau posibl gwahanol yr atgyfeiriad hyd at y pwynt ymholi o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989, wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol (tabl ym mharagraff 8.38). Ar

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

yr amod ei bod yn bosibl cael gafael ar amcangyfrif rhesymol ddibynadwy o'r niferoedd drwy'r dull a amlinellwyd uchod, bydd yn bosibl defnyddio'r amcangyfrif hwnnw a'r wybodaeth am y gost unedol i roi amcangyfrif o gostau presennol atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar Gasglu a Monitro Data, sy'n gweithio o dan y Grŵp Gweithredu, yn gweithio i ddatblygu dull o gasglu data ar atgyfeiriadau perthnasol at wasanaethau cymdeithasol, fel y gellir casglu data cyn cychwyn y Bil er mwyn darparu llinell sylfaen gadarnach, a monitro'r effaith ar ôl ei gychwyn.

Roedd tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn awgrymu nad oeddent yn rhagweld atgyfeiriadau ychwanegol sylweddol ar ôl dileu amddiffyniad cosb resymol.¹

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid gwneud gwaith pellach ar oblygiadau cost cynlluniau dargyfeirio a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rydym wrthi'n gwneud gwaith ar oblygiadau cost cynlluniau dargyfeirio. Mae gennym grŵp gorchwyl a gorffen penodol a fydd yn mynd â'r gwaith manwl hwn rhagddo dan oruchwyliaeth y Grŵp Gweithredu Strategol. Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i sicrhau cysylltiad clir rhwng yr amcangyfrif o nifer yr achosion a gyfeirir at yr heddlu a nifer yr erlyniadau am droseddau lle byddai'r amddiffyniad cosb resymol wedi bod yn berthnasol yn flaenorol. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn y dylid gwneud rhagor o waith ar y mater hwn.

Rydym yn derbyn bod yr amcangyfrifon a roddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer data'r heddlu, ar un llaw, a'r erlyniadau, ar y llaw arall, wedi cael eu cyfrifo mewn ffyrdd gwahanol. Rydym yn deall bod y Pwyllgor yn ffafrio set o ddata sy'n dangos cysylltiad clir rhwng nifer yr achosion a atgyfeirir at yr heddlu, a nifer yr erlyniadau o ganlyniad iddynt.

¹ Sally Jenkins, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, paragraff 60

<http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5502>

Matt Jukes, Heddlu De Cymru, paragraff 52 <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5502>

Jane Randall, Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, paragraff 269

<http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5502>

Dr Rowena Christmas, RCGP paragraff 436 <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5503>

Fodd bynnag, mae'n rhaid cadw cyfyngiadau'r data sydd ar gael i ni mewn cof ac nid yw'n briodol addo y bydd yn bosibl dod o hyd i ffordd o wneud y cysylltiad hwnnw'n glir. Os yw hyn yn wir, byddwn yn darparu esboniad llawn o'n gwaith yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu asesiad llawn o unrhyw gostau yr eir iddynt am ddiweddarau canllawiau a hyfforddiant a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Casgliad 3. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig unrhyw gostau o ran canllawiau a hyfforddiant. Felly, ni all y Pwyllgor ddod i gasgliad ynghylch gwerth am arian y gweithgareddau hynny, nac a yw'n ymddangos bod yr adnoddau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny'n ddigonol ac yn rhesymol er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r ddeddfwriaeth.

Rwy'n **derbyn** egwyddor yr argymhelliad hwn ac yn nodi casgliad y Pwyllgor.

Nodaf fod y Pwyllgor yn cydnabod y gallai diweddarau canllawiau er mwyn ystyried deddfwriaeth newydd fod yn rhan o rôl aelod o staff² ac efallai na fydd angen hyfforddiant ychwanegol³.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud rhagor o waith i asesu, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl, faint y byddai'n costio i randdeiliaid ddiweddarau eu canllawiau a phenderfynu a yw'n debygol y ceir unrhyw gostau hyfforddiant ychwanegol. Byddwn yn rhoi ein hamcangyfrif gorau o'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun gwaith ar gyfer y Grŵp Gweithredu, gan amlygu, yn benodol, unrhyw feysydd sy'n ymwneud â sicrhau adnoddau ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Bil.

Casgliad 4. Fel y nodwyd sawl gwaith yn yr adroddiad, mae'r Pwyllgor yn siomedig bod gwaith y Grŵp Gweithredu yn mynd rhagddo ar ôl i'r Pwyllgor wneud ei waith craffu. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut y mae'r Grŵp hwnnw'n datblygu ei gynlluniau ar gyfer gweithredu ac a yw hyn yn darparu manylion am feysydd nad yw'r Pwyllgor wedi gallu dod i gasgliadau arnynt yn ei waith craffu.

² Paragraff 67 Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid

³ Paragraff 68 Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid

Casgliad 5. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw gweithgareddau ac adnoddau'r Grŵp Gweithredu wedi cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yn synnu nad oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod sefydlu'r Grŵp hwn cyn cyflwyno'r Bil yn flaenoriaeth, er mwyn deall yn llawn sut y byddai amcanion y Bil yn cael eu cyflawni.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn ac yn nodi casgliadau'r Pwyllgor.

Mae gwaith y Grŵp Gweithredu yn mynd rhagddo, ar y cyd â'i grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae'r Grŵp yn gyfrwng i ddod â phawb sydd â diddordeb yn y ffordd y gweithredu y Bil yn ymarferol ynghyd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflawni gwaith ysgrifenyddol y Grŵp ac yn rhoi cymorth ymarferol arall heb fawr o gost.

Rydym yn cynnig cyhoeddi cynllun gwaith lefel uchel, ar wahân i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, gan y bydd gwaith y Grŵp Gweithredu yn parhau os caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol. Ar ôl hynny, ni fydd disgwyliad i ddiweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ymhellach. Felly, mae'n gwneud mwy o synnwyr yn ymarferol i ddiweddariadau ar waith y Grŵp Gweithredu gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, neu eu cynnwys mewn llythyrau i'r pwyllgorau perthnasol (y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg). Rhagwelir y cyhoeddir y cynllun gwaith lefel uchel ar ôl cyfarfod mis Medi y Grŵp Gweithredu.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ei strategaeth o ran adolygu ar ôl gweithredu, gan ystyried yr adnoddau y bydd eu hangen ar gyfer y gweithgareddau y mae'n bwriadu eu cyflawni. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rydym yn ystyried ymhellach ein strategaeth o ran adolygu ar ôl gweithredu. Rhoddir diweddariad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys rhagor o wybodaeth am y strategaeth ar gyfer gwerthuso a chasglu a monitro data.